



Creu Cynllun Teithio Llesol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Beth yw Cynllun Teithio Llesol?

Mae cynllun teithio llesol ysgol yn gasgliad o gamau gweithredu a nodwyd gan yr ysgol i leihau'r defnydd o geir ac annog teithio llesol. Mae teithio llesol yn teithio i'r ysgol ar droed, ar feic neu'n sgwtio. Mae'n ddogfen fer a syml sy'n amlinellu'r camau y bydd ysgol yn eu rhoi ar waith i alluogi a hyrwyddo cerdded, beicio a sgwtio i'r ysgol.

Mae'n ddyhead gan y Cyngor i bob ysgol yng Nghaerdydd gael cynllun teithio llesol ar waith erbyn Ebrill 2022.

Camau i Greu Cynllun Teithio

Mae swyddogion Teithio Llesol yma i gefnogi pob ysgol unigol i ddatblygu cynllun teithio llesol sy'n gweddu orau iddynt. Yr agweddau pwysicaf ar gynllun teithio llwyddiannus yw ei fod yn bodloni anghenion eich ysgol a bod modd cyflawni'r camau sydd ynddo.

Er mwyn eich helpu i ddatblygu cynllun teithio llesol mae'r Cyngor wedi amlinellu camau cyffredinol i chi eu dilyn. Gall Swyddogion Teithio Llesol weithio gyda chi i ddilyn y camau hyn. Chi sydd i ddewis fformat y cynllun a sut rydych yn dewis cwblhau pob cam.

Cam 1: Cwrdd â'ch Swyddog Teithio Llesol

Cwrddwch â'ch swyddog teithio llesol a all fynd â chi drwy'r camau hyn a'ch arwain i greu cynllun personol i gymuned eich ysgol. Bydd ar gael drwy gydol y broses hon i'ch cefnogi os oes angen. Os nad oes gennych swyddog teithio llesol hyd yma, anfonwch e-bost atom: cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk

Cam 2: Darganfod y Problemau yng Nghymuned eich Ysgol

Cynhaliwch arolwg i ganfod sut mae pobl yn teimlo am deithio i'r ysgol a beth sydd angen digwydd er mwyn cynyddu teithio llesol. Gall eich swyddog eich cefnogi i greu un sy'n addas ar gyfer eich ysgol.

- Mae'n bwysig canfod eich data ar yr Arolwg Teithio (neu'ch arolwg Dwylo i Fyny) i ganfod data sylfaenol eich ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud hyn yn nhymor yr hydref. Holwch eich Swyddog Teithio Llesol am y data hwn neu am gopi i'ch ysgol ei gwblhau os nad yw eich ysgol wedi gwneud hynny.
- Treuliwch rywfaint o amser yn arsylwi'r ffordd i mewn i'ch ysgol ar ddechrau neu ar ddiwedd y dydd i weld problemau. Gallech wneud hyn ar ôl creu eich grŵp (gweler Cam 3) fel y gallan nhw hefyd gymryd rhan.
- Gellid gwneud arolwg yn y dosbarth, ei anfon at rieni, neu yn ystod noson rhieni, neu bob un! Mae gennym rai enghreifftiau o arolygon y gallwch eu defnyddio. Gallech bob amser gael cwestiynau penagored gyda disgyblion yn eich ysgol i ganfod beth, yn eu barn nhw, yw'r problemau diogelwch o amgylch eu hysgol a'r rhesymau pam y maent yn teithio fel y maent.





Cam 3: Creu Grŵp

Yn seiliedig ar sut y trefnir eich ysgol, nodwch sut yr hoffech ddatblygu eich cynllun teithio llesol. Pwy y mae angen i chi ei gynnwys a pha gymorth sydd ei angen arnoch?



- Rydym yn argymhell ffurfio grŵp i gydweithio a rhannu syniadau i ddatblygu eich cynllun er nad yw hyn bob amser yn hanfodol.
- Gallech ddatblygu eich cynllun drwy grŵp ysgol presennol fel Pwyllgor Eco neu Gyngor Ysgol. Ceisiwch roi cyfrifoldeb i'r disgyblion, er mwyn iddyn nhw fod yn frwdfrydig am deithio llesol yn ogystal â thynnu rhywfaint o'r gwaith oddi ar eich dwylo! Mae opsiynau eraill posibl ar gyfer grwpiau yn cynnwys llywodraethwyr, Swyddog Ysgolion Iach, rhieni sy'n deithwyr llesol brwd, Swyddog Cyswllt Teulu, neu gallwch greu grŵp newydd yn benodol ar gyfer teithio i'r ysgol.
- Penderfynwch pa mor aml y dylent gyfarfod a dewiswch arweinydd.

Cam 4: Ysgrifennwch eich cynllun

- Crëwch adduned gyffredinol i'ch cynllun yn seiliedig ar ganlyniadau eich arolwg a'r rheswm pam mae eich ysgol yn datblygu cynllun, e.e. delio â thagfeydd traffig, gwella ffitrwydd disgyblion ac athrawon.
- Defnyddiwch y rhestr o gamau posibl i'ch helpu i greu cynllun. Gall eich swyddog teithio llesol roi rhestr o gamau i chi i'ch helpu.
- Gallech weithio gyda'r grŵp rydych wedi'i greu i feddwl am syniadau ac yna rhoi'r rhain mewn fformat o'ch dewis neu'r un rydym wedi'i greu.
- Sicrhewch fod gan eich cynllun amserlen ar gyfer pob cam, yn ogystal â ffordd o fesur y cynnydd.
- Ceisiwch sicrhau bod eich cynllun yn cael ei gynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol.

Cam 5: Cychwyn

- Dechreuwch eich taith gyda ffordd o adael i'ch cymuned ysgol gyfan wybod am eich Cynllun Teithio Llesol. Siaradwch â'ch Swyddog Teithio Llesol am hyn, ond dyma rai syniadau: digwyddiad ysgol gyfan fel wythnos cerdded i'r ysgol, neu gynnal diwrnod beicio.
- Gosodwch ddyddiadau i gwrdd â'ch grŵp a gweithio drwy'r camau rydych wedi'u rhestru i sicrhau eich bod ar y trywydd iawn gyda'ch cynllun. Trafodwch unrhyw broblemau rydych wedi'u cael a sut y gallwch eu goresgyn.
- Dyrannwch swyddi i bobl o fewn y grŵp.

Cam 6: Cynnydd

- Er mwyn cadw momentwm, rydym yn argymhell adolygu eich cynnydd yn flynyddol yn unol â'r Cynllun Gwella Ysgol. Dylai'r camau newid wrth i chi gyrraedd eich targedau a bod yn ddogfen weithio. Gwnewch yn siŵr bod arolwg yn cael ei wneud bob blwyddyn i fonitro unrhyw newidiadau a diweddarau eich cynllun yn unol â hynny.
- Gallech benderfynu cynnal digwyddiad i ddathlu'r cynnydd a wnaethoch, a chael ei hyrwyddo'n lleol.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost atom:
cynlluniateithio@caerdydd.gov.uk**